Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Y Ffridd

**Gwalchmai**
**Caergybi**
**LL65 4SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Y Ffridd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Y Ffridd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 85 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 16.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 20.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 74.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2011 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymuned y Ffridd yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae’r ysgol yn un gynhwysol lle mae staff ac arweinwyr yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn dda, gyda phwyslais penodol ar sicrhau cyfle cyfartal, cydraddoldeb a thegwch i bob disgybl.

Mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau darllen, dealltwriaeth fathemategol a chreadigol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Nodwedd gref o’r ysgol yw natur gyfeillgar y disgyblion. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn feddylgar am eraill. Maent yn sgwrsio’n  hollol naturiol ac yn dangos diddordeb a pharch wrth drafod gyda chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn a gweledigaeth greadigol yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu. Mae gan staff berthynas waith arbennig â’r disgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder addas i’r gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, cyfyng yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion ac, o ganlyniad, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Er hyn, nid ydynt bob tro’n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig y disgyblion yn ddigon adeiladol dros amser.

Mae’r pennaeth ac arweinwyr yn canolbwyntio’n dda ar sicrhau bod pob un o’r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Mae'r arweinwyr, gan gynnwys y pennaeth a'r llywodraethwyr, yn gweithio yn effeithiol gyda'i gilydd a'r gymuned, sy'n sicrhau dealltwriaeth o amcanion yr ysgol yn effeithiol. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella’r ysgol yn ddigon effeithiol i adnabod eu cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, nid yw blaenoriaethau gwella digon priodol yn cael eu hadnabod a’u gwireddu.

## Argymhellion

A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella priodol a chynllunio’n strategol i'w gweithredu

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith a dewis eu dulliau o gyflwyno eu dysgu

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a’u medrau rhifedd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a’r rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o’u mannau cychwyn. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol a llawer yn gwneud cynnydd cyson o ran eu medrau cyfathrebu yn y ddwy iaith. Maent yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn hyderus ac yn adeiladu arno’n llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n dda ar ei gilydd ac ar oedolion ac yn dangos parch at farn pobl eraill. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau siarad Cymraeg yn fuddiol ac yn siarad yn hyderus wrth drafod pa gynnwys sy’n well ganddynt ar dost adeg byrbryd y bore. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu geirfa yn addas. Er enghraifft, wrth drafod pa ddefnydd sydd orau i greu llenni er mwyn atal goleuni rhag dianc o gartrefi yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn mwynhau gwrando ar straeon a'u hailddarllen i'w ffrindiau ac oedolion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin a derbyn yn adnabod ac enwi ystod o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen geiriau syml. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol ac aeddfed. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau priodol yn y ddwy iaith, gan gynnwys testunau digidol ac yn cymhwyso'u medrau darllen yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n briodol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr mewn ystod dda o brofiadau ac yn ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio anifeiliaid y fferm. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n rhydd ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus a chlir. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau’n gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio Nel y ci defaid.

Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau ysgrifennu’n llwyddiannus ac yn greadigol, er enghraifft wrth ysgrifennu portread dychmygol yn seiliedig ar hanes Barti Ddu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu’n effeithiol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth greu pamffledi gwybodaeth i ddwyn perswâd ar bobl i ymweld â mynyddoedd Eryri. Er hynny, nid yw

disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu darnau estynedig ac i fireinio a gwella eu gwaith yn ddigon rheolaidd.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau sylfaenol mathemateg yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth adeiladu siapiau 3D ac wrth drefnu odrifau ac eilrifau. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae llawer yn defnyddio nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i fesur gwahanol rannau o'u cyrff. Maent hefyd yn casglu, cyflwyno a dehongli gwybodaeth yn ddeallus, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth mewn graff bar ar fynyddoedd uchaf y byd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon cyson wrth ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol mewn gweithgareddau diddorol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio technoleg i gefnogi eu medrau llythrennedd a rhifedd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn lled hyderus i ymchwilio i, a chyflwyno, gwybodaeth ar fas data am wledydd y Gymanwlad.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn ac maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio deunyddiau dychmygus i ddynwared godro gwartheg ac adeiladu tractor o gratiau llaeth. Mae'r disgyblion hynaf yn efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf trawiadol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Un o gryfderau'r ysgol yw'r awyrgylch gartrefol a chyfeillgar sydd ynddi. Mae bron bob disgybl yn gwrtais, yn hapus ac yn chwarae'n gyfeillgar gyda disgyblion eraill yn ystod amseroedd egwyl. Un o agweddau nodedig yr ysgol yw'r ffordd mae'r disgyblion yn sgwrsio'n naturiol ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn teimlo eu bod yn gallu ymddiried yn y staff i wrando arnynt ac ymateb i'w pryderon neu anghenion, petai angen. Mae'r disgyblion yn ofalgar ac yn barod i gydweithio'n hyderus gydag eraill. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel o fewn naws gynhwysol yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd ac yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd diet cytbwys i'w iechyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu a chadarnhau dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach. Yn ogystal, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parodrwydd i ymgymryd â'u gweithgareddau dysgu ac yn mynd ati'n egnïol i gyflawni eu tasgau. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ymwneud â gweithgareddau dysgu yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Maent yn dod o hyd i atebion gan drafod â'i chyfoedion yn aml cyn gofyn am help gan yr athrawon. Ar frig yr ysgol, mae llawer o

ddisgyblion yn cydweithio'n gytûn ag eraill, yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a chyflwyniadau staff, ac yn parchu safbwyntiau ei gilydd wrth drafod. Mae mwyafrif y disgyblion yn trafod eu dysgu blaenorol yn hyderus ac yn ymateb yn briodol i'r adborth i wella rhai agweddau o'u gwaith, er enghraifft eu sillafu ac atalnodi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol, er enghraifft drwy gynllunio teithiau o gwmpas Eryri sy'n addas ar gyfer pobl ag anabledd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i gynnig syniadau ar y math o bynciau yr hoffent ddysgu amdanynt o fewn y thema a ddewiswyd ganddynt. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1 a 2, mae disgyblion yn cydweithio â cherddor lleol i feddwl am syniadau wrth sgriptio sioe gerdd yn seiliedig ar chwedl y lleidr pen ffordd, Madam Wen. Mae'r disgyblion hynaf yn nodi agweddau o'r Ail Ryfel Byd yr hoffent ymchwilio iddynt fel bywyd faciwî.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau i wella eu hamgylchedd, er enghraifft wrth dyfu llysiau yn yr ardd a threfnu bod cogyddes yr ysgol yn coginio'r cynnyrch ar gyfer gweddill disgyblion yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n feddylgar at elusennau amrywiol ac mae ganddynt syniadau pendant ynghylch pwy ddylai elwa o'u cyfraniadau. Er enghraifft, penderfynodd y cyngor ysgol wneud cyfraniad i elusen cŵn tywys leol yn dilyn gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod athrawon yn gofyn eu barn wrth gynllunio themâu a phrofiadau dysgu. Maent yn mwynhau cyfrannu syniadau a chwestiynau at y mapiau meddwl a'r byrddau syniadau rhyngweithiol. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas o gyd-gynllunio a pharch wrth wrando ar gyfraniadau'r disgyblion.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun y gymuned yn llawn, gan gynnwys dylunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu diwylliant ac iaith yr ardal. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cyflwyno cwricwlwm sydd wedi seilio ar hyrwyddo cymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn cael eu hannog i wneud eu gorau.

Mae'r gweithgareddau dysgu yn adlewyrchu diwylliant a hanes yr ardal yn effeithiol ac mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddiwylliant cyfoes Cymru. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu Cymreictod disgyblion yr ysgol. Mae'r staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau mwyafrif o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau ysgogol sy'n atgyfnerthu a chyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Oes Fictoria', ymwelodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 â'r amgueddfa yn Sir Amwythig, gyda'r disgyblion ieuengaf yn derbyn ymweliad gan ffermwr lleol a'i dractor. Trwy'r profiadau cyfoethog hyn, maent yn dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant amaethyddol a hanes yr ardal leol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio ag artistiaid lleol a beirdd cenedlaethol, er enghraifft wrth greu gwaith celf deniadol sy'n adlewyrchu hanes y gymuned leol.

Mae staff yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder da i'w gwersi. Maent yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol ac yn holi disgyblion yn fedrus. Mae staff yn annog disgyblion trwy ganmol eu cyfraniadau a'u syniadau. Maent yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio strategaethau perthnasol i fyfyrio a gwella safon eu gwaith ac i beidio ag ofni gwneud camgymeriadau. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio strategaethau i ddyfalbarhau â thasgau a gwella'u gwaith, sy'n arwain disgyblion i drafod gydag eraill am ddatrysiad.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda gan sicrhau bod y rhan fwyaf yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda a chyfoes ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol i symbylu ac annog disgyblion i ddysgu. Mae cymorthyddion yn gweithio ochr ag ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu'r disgyblion.

Mae staff yn annog y disgyblion i gymryd rhan yn gyson mewn ystod o weithgarwch sy'n hybu ffitrwydd ac iechyd corfforol. Er enghraifft, cynhelir gwersi nofio, a sesiynau ffitrwydd rheolaidd. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu unigolion iach a hyderus.

Mae egwyddorion  dysgu sylfaen wedi'u sefydlu'n gadarn ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol. Mae'r staff yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt trwy weithgareddau a heriau yn y dosbarthiadau a'r ardal allanol. Mae hyn yn hyrwyddo dysgwyr annibynnol hyderus. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibynnol yn fwyfwy mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd digonol i'w helpu i wneud dewisiadau rhagweithiol ynglŷn â'r ffordd y maent yn cyflwyno eu dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol a llywio cyfeiriad y dysgu'n bwrpasol. Mae staff yn ystyried syniadau disgyblion yn synhwyrol wrth gynllunio ystod o weithgareddau bwriadus. O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gadarn. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar priodol sy'n cefnogi'r disgyblion i adnabod camgymeriadau yn eu gwaith, gan gynnwys gwallau sillafu ac atalnodi, er enghraifft. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i fireinio a gwella ansawdd a chynnwys eu gwaith yn dilyn adborth. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn rhoi sylw ystyrlon i wella agweddau pwysicaf eu gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i'r disgyblion yn agwedd gref o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, hapus a chynhwysol, gyda staff sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pob disgybl. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, yn barod i wrando arnynt, i fodloni eu hanghenion ac i'w cefnogi i wneud iddynt deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r awyrgylch bositif a gofal twymgalon staff yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n hawdd ym mywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n effeithiol at awyrgylch gefnogol a gofalgar yr ysgol. Caiff hyn ddylanwad cadarn ar ymddygiad a chwrteisi'r disgyblion a'u parch at eraill, beth bynnag eu cefndir.

Mae'r athrawon yn defnyddio gweithdrefnau cynhwysfawr er mwyn casglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion ac olrhain eu cynnydd. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i ddarparu cymorth ac ymyraethau gwerthfawr i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r cydlynydd ADY, ynghyd â gweddill y staff, yn cynllunio ymyraethau effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion yn y dosbarth, yn unigol, neu mewn grwpiau bychain, lle bo'n briodol. Mae gan yr ysgol ystod o gynlluniau cynhwysfawr sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu cefnogaeth er mwyn gwella deilliannau'r disgyblion. Er enghraifft, mae ystod eang o raglenni ymyrraeth strwythuredig sy'n gwella medrau siarad a darllen disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda disgyblion, y rhieni ac asiantaethau perthnasol, i gynllunio'n fwriadus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu ac i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth a'u treftadaeth. Maent yn cynnwys, er enghraifft, ymweliadau â'r gymuned leol a cherdded rhai o fynyddoedd Ynys Môn. Atgyfnerthir gorwelion y disgyblion hynaf drwy ymweliadau â mannau pellach fel Pentref Peryglon yn Sir y Fflint, a thaith flynyddol i Lundain sy'n ehangu cyfleoedd a phrofiadau ehangach tu hwnt i Gymru.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn gymdeithasol mewn chwaraeon a hamdden, er enghraifft drwy dimau a thwrnameintiau chwaraeon, côr yr ysgol a chystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol fel yr Urdd. Mae cyfraniadau cwmni adloniant allanol yn llwyddo i ehangu a datblygu agweddau positif at les y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u parodrwydd i gymdeithasu.

Mae'r staff yn llwyddo i ddatblygu agweddau moesol ac ysbrydol y disgyblion yn dda. Er enghraifft, drwy gynnal gwasanaethau addoli ar y cyd, maent yn pwysleisio pwysigrwydd  parchu a helpu eraill. Daw'r disgyblion i barchu anghenion a sefyllfaoedd pobl eraill, er enghraifft wrth drefnu stondin yn y ffair haf i werthu nwyddau i godi arian at elusen Plant Mewn Angen.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae hyn wedi gwella ymrwymiad disgyblion i ddod i'r ysgol ac wedi arwain at gynnydd mewn presenoldeb. Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol buddiol ar gyfer yr ysgol. Mae eu gweledigaeth wedi ei seilio ar greu amgylchedd dysgu hapus a theuluol sy'n galluogi'r disgyblion i fod 'Y gora' fedra'i fod.' Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r weledigaeth hon, ac mae ei heffaith i'w gweld ar ddatblygiad, cynnydd a lles y disgyblion. Mae'r tîm brwdfrydig o athrawon a chymorthyddion yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol i sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae'r pennaeth yn sefydlu ymdeimlad o berthyn ymysg y staff ac ethos tîm cryf. Mae'n hwyluso diwylliant o arbrofi a threialu arferion newydd i godi safonau a gwella medrau disgyblion. Er enghraifft, mae'r athrawon ar frig yr ysgol yn treialu

dulliau cylchdroi gweithgareddau dysgu i gwmpasu holl feysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol ar gael i staff i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cysylltu â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu harferion proffesiynol. Mae rhan fwyaf o athrawon yn mynychu sesiynau hyfforddiant, ac yn cael cyfleoedd buddiol i drafod ag ysgolion eraill i rannu arferion effeithiol. Enghraifft nodedig yw'r cynllunio trawsgwricwlaidd sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth deg o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella a'i ddatblygu. Mae ganddynt amserlen briodol ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent yn ystyried ac yn dadansoddi tystiolaeth sy'n dangos effaith ar gynnydd y disgyblion yn erbyn eu blaenoriaethau cyfredol.

Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hunanwerthuso yn arwain at osod blaenoriaethau digon priodol i'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio strategol yn ddigon penodol na miniog.

Mae llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda, ac mae ganddynt gyfrifoldebau am feysydd penodol yn seiliedig ar gryfderau a diddordebau'r aelodau. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn cynnal trafodaethau â staff i werthuso'r ddarpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am ddatblygiadau diweddar, er enghraifft Cwricwlwm i Gymru ac am drefniadau cyfoes anghenion ADY.

Mae llywodraethwyr yn cynnig syniadau a strategaethau ar sut i wella meysydd penodol yn yr ysgol. Er enghraifft, treialwyd adnoddau newydd gan yr ysgol i hyrwyddo a chodi safonau lles emosiynol disgyblion. Mae'r gweithgareddau dysgu wedi arwain at welliant ym mhresenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys disgyblion sydd yn gymwys i ginio ysgol am ddim. Mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Bellach, mae'r gweithgareddau lles hyn wedi gwreiddio'n llwyddiannus ac ar gael i athrawon ledled Cymru ar blatfform Hwb.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn briodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd hyrwyddo diwylliant o fwyta ac yfed yn iach ymysg y disgyblion.

Mae perthynas gynhyrchiol yn bodoli rhwng y pennaeth, y staff a'r rhieni. Maent yn defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth i rieni am brofiadau a chynnydd eu plant, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle. Mae hyn yn cynnwys mannau awyr agored ysgogol fel y coetir a'r ardal garddio. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol ac yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i ddarparu ymyraethau penodol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau dyraniad teg er mwyn darparu digon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Maent yn

gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion penodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   03/04/2024